Ysgol y Dderwen: Camau Cynllunio ein Cwricwlwm- Mai 2022

Fel ysgol, rydym wedi bod yn cynllunio cwricwlwm newydd yn y broses barhaus o godi safonau. Nid ydym yn datgan ein bod wedi perffeithio na chwblhau pob agwedd. Fodd bynnag, mae rhai gofynion cyfreithiol sydd angen cyflawni wrth gyflwyno ein cwricwlwm.

Gweledigaeth Cwricwlwm Ysgol y Dderwen

Cynllunir cwricwlwm Ysgol y Dderwen i fod yn un cwbl gynhwysol a symbylus fel bod pob disgybl yn derbyn mynediad perthnasol a chynhwysfawr i bob maes dysgu a phrofiad. Bydd y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol – llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol – wedi eu gwau'n naturiol i'r holl broses ddysgu.

Anelwn, trwy ein cwricwlwm, i ymestyn dyhead a gorwelion ein disgyblion a'u harfogi i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a brwdfrydig a fydd yn barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus a chreadigol a fydd yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion gwybodus ac egwyddorol yng Nghymru a'r byd
  unigolion iach a chyflawn a fydd yn barod i gyfrannu'n adeiladol er lles eu cymuned, eu gwlad a'r amgylchfyd o'u cwmpas.

Trwy gyfrwng ein cwricwlwm newydd, anelwn i ysbrydoli'n holl ddisgyblion fel y gallant gyrraedd eu llawn botensial, gan ddatblygu'n ddinasyddion gweithredol a hyderus maes o law. Darparwn ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol ar eu cyfer a hynny mewn awyrgylch hapus a chefnogol. Pwysleisiwn yr ymdeimlad o falchder ynddynt eu hunain ynghyd â pharch at eraill. Bydd ethos Cymraeg yr ysgol yn sail i'r cyfan a wnawn tra bydd cefnogaeth fugeiliol heb ei hail hefyd yn gefn i'n holl weithgarwch.

Trwy fanteisio ar ehangder cwricwlwm Ysgol y Dderwen a'r cyfoeth o brofiadau a gynigir iddynt, caiff y disgyblion gyfleon rheolaidd i feithrin ystod o sgiliau a gwerthoedd a fydd yn cynnig sylfeini cadarn iddynt yn eu haddysg uwchradd ac yn y gweithle yn y pen draw.

Ein cwricwlwm cynhwysol
Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Y pedwar diben
Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer ein cynllun cwricwlwm ysgol. Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod :

- ✓ yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- ✓ yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ✓ dinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- ✓ unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol fel y'u disgrifir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**.**

Meysydd Dysgu a Phrofiad
Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad o:

1. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
2. Celfyddydau Mynegiannol
3. Gwyddoniaeth a Thechnoleg
4. Dyniaethau
5. Mathemateg a Rhifedd
6. Iechyd a Lles

Dysgu, Dilyniant ac Asesu

Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy ddylunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgegol.
Mae ein cwricwlwm, a ategir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser bydd ein dysgwyr yn datblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn Maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau, ac mae'n cael ei lywio gan y Cod Cynnydd.
Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein hymagwedd at asesu, a'i ddiben yw llywio cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu yn cael ei wreiddio fel rhan gynhenid o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu ar fynediad i'r ysgol.

Cyfrwng Iaith

- Mae Ysgol y Dderwen yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm. Cyflwynir gwersi Saesneg ym Mlwyddyn 3.

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn a'u hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob Maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

- datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- bod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

CCUHP – Hawliau Plant

Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o CCUHP, ac o CCUHP, ymhlith y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu.

CWRE : profiadau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a gwaith

Bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ACRh

Mae ein cwricwlwm ysgol yn cofleidio'r arweiniad yn y Cod ACRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

CGM : Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.
Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o wersi CGM yn y Cwricwlwm i Gymru
Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytûn yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn CGM o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

Adolygu a mireinio

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i allbynnau ymholi proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

Pennaeth: Dylan Evans 13.07.2022

Cadeirydd y Corff Llywodraethol: A. Charles 13.07.2022

Dyddiad adolygu: July 2023

Dyma grynodeb o weithredoedd yr ysgol wrth lunio Cwricwlwm o Gyfle Ysgol y Dderwen.

Beth sy'n ofynnol?	**Gweithred ar waith**
Darparu gwybodaeth am y ffordd y mae ymarferwyr, dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r cwricwlwm	• Diwrnodau HMS a chyfarfodydd staff • Pwyllgorau'r Corff Llywodraethol • Cyfarfodydd Clwstwr Ysgolion lleol • Hyfforddiant a chyfarfodydd AALl • Holiaduron Cwricwlwm – Disgyblion / rhieni/ staff / Llywodraethwyr
Sut mae'r cwricwlwm yn bodloni elfennau gofynnol y Cwricwlwm i Gymru, gan ddechrau gyda'r pedwar diben?	• Mae cwricwlwm Ysgol y Dderwen yn cael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n galluogi pob dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben. • Mae'n sicrhau cyfleoedd dysgu ac addysgu ysgogol a dychmygus sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob dysgwr wneud cynnydd da. • Mae'n addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob dysgwr. • Mae ein cwricwlwm yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob dysgwr. • Mae'n sicrhau dulliau dysgu ac addysgu eang a chytbwys i bob dysgwr • Mae'n cwmpasu, ar gyfer pob dysgwr, y Meysydd, elfennau mandodol y cwricwlwm sef Cymraeg a'r Saesneg, y sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (y mae'n rhaid iddi fod yn addas ar gyfer cam datblygu'r dysgwr), a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Gwybodaeth am sut mae'r ysgol yn ymdrin â chynnydd dysgwyr a'i threfniadau ar gyfer asesu	• Mae Cwricwlwm Ysgol y Dderwen yn plethu ein gweithrdrefnau asesu'n naturiol â'r arferion bob dydd yn y dosbarth ac maent yn briodol i bob dysgwr. • Mae gofynion ynghylch asesu i'w gweld yn y Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022 • Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau ar gyfer asesiadau wrth dderbyn disgyblion a chynnal yr asesiadau hynny ar gyfer pob disgybl a phlentyn ar adegau penodol a nodir yn y Rheoliadau hynny • Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau ar gyfer asesiad parhaus o bob disgybl a phlentyn drwy gydol y flwyddyn ysgol gan ymarferydd, a chynnal yr asesiad hwnnw • Mae'r ysgol hefyd yn cy-weithio o fewn yr ysgol a chydag ysgolion eraill i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a chynllunio ar gyfer pontio dysgwyr rhwng ysgolion • Wrth gynnal cyfarfodydd nosweithiau rhieni a darparu adroddiadau diwedd blwyddyn, mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr fel eu bod yn deall y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.
Sut y bydd y cwricwlwm yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys y broses ar gyfer casglu adborth a diwygio'r cwricwlwm yn barhaus	• Cyfarfodydd mewnol a diwrnodau HMS • Cyfarfodydd o'r corff Llywodraethu-mae'r ysgol a'r corff llywodraethol yn parhau i adolygu ein cwricwlwm a'i ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'r gofynion cyfreithiol. • Cefnogaeth yr AALl er mwyn casglu adborth a diwygio'r cwricwlwm yn barhaus.
Effaith y Cwricwlwm ar iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr.	• Mae gan yr ysgol drefniadau da i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol, fel y gallant ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol ac elwa'n dda o'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig. • Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth ystyriol ar gyfer iechyd a lles meddyliol a chorfforol disgyblion, trwy ymwybyddiaeth dda a dulliau wedi'u cynllunio, er enghraifft yn ystod y pandemig diweddar. • Mae'r ysgol wedi cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n canolbwyntio ar gefnogi ymwybyddiaeth disgyblion o iechyd meddwl, ynghyd â gweithdrefnau ymatebol effeithiol pan fydd materion yn codi.
Sut mae'r ysgol yn hyrwyddo	• Trwy gynnal gwasanaethau, gwersi lles a chyfnodau meddwlgarwch, mae'r staff ac aelodau'r gymuned ehangach yn hyrwyddo gwybodaeth a

gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau?	dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
Gweithio â sefydliadau eraill.	• Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion eraill, lleoliadau, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, i gyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddf.

Camau cynllunio ein Cwricwlwm

Beth sy'n ofynnol?	**Gweithred ar waith**
Galluogi dysgwyr i wneud **cynnydd** tuag at gyflawni'r pedwar diben	Mae profiadau a her dysgu rhan fwyaf o ddisgyblion o ansawdd uchel ar draws yr ysgol. Mae hyn yn gwella cymhelliant yn dda iawn ac yn cefnogi cynnydd da i ran fwyaf o ddisgyblion.
bod yn eang ac yn gytbwys	Mae'r addysgu, trwy gyd-destunau dilys, yn cael effaith gref ar ganlyniadau rhan fwyaf o ddisgyblion. Wrth gynllunio cyfleoedd ysgogol, eang a chytbwys mae llais / dylanwad dysgwr rheolaidd yn ddylanwadol wrth lunio'r ddarpariaeth a sicrhau canlyniadau o ansawdd da.
bod yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau	Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu o ansawdd da sy'n ysbrydoli rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn codi eu dyheadau ynghylch gyrfaoedd y dyfodol a byd gwaith. Mae gan yr ysgol systemau ffurfiol ac anffurfiol sy'n helpu rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud dewisiadau gwybodus.
darparu ar gyfer cynnydd priodol dysgwyr	Mae'r ysgol yn paratoi rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig, i fod yn ddinasyddion gweithgar. Mae staff yn gwahaniaethu'n gadarnhaol er mwyn cynnwys y disgyblion sydd mwyaf agored i niwed. Trwy hyn, mae rhan fwyaf o ddysgwr yn aml yn ymwneud â dylanwadu a /

	neu gwneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ystod da o grwpiau llais disgyblion yn ganolog i'r ysgol ac mae cyfranogiad dysgwyr wrth wneud penderfyniadau cymunedol ehangach wedi'i ymgorffori. Mae rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y mae nhw'n ei ddysgu, a sut maen nhw'n dysgu.
cynnwys pob un o'r chwe Maes	Mae'r cwricwlwm yn darparu ehangder a dyfnder cynhwysfawr a buddiol o brofiadau dysgu i rhan fwyaf o ddisgyblion, ar draws pob maes dysgu, i ddatblygu eu diddordebau a'u medrau ehangach.
cwmpasu pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig	Wrth gynllunio profiadau dysgu mae'r ysgol yn cwmpasu pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig er mwyn iddynt blethu â'r meysydd dysgu er mwyn galluogi ein dysgwyr i ddatblygu tuag at pedwar diben y cwricwlwm.
cynnwys yr elfennau mandadol o'r cwricwlwm, sef crefydd, gwerthoedd a moeseg, addysg cydberthynas a rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg	Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr, rheolaidd a pherthnasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r dysgu hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm a gynlluniwyd ac yn gwneud defnydd buddiol iawn o ymweliadau i ddatblygu diddordeb a dealltwriaeth disgyblion o faes dysgu penodol. Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus, trwy ystod eang o glybiau a gweithgareddau ychwanegol sy'n adlewyrchu'r pedwar pwrpas yn dda.
ymgorffori'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol	Mae'r cwricwlwm yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgorffori'r sgiliau trawsgricwlaidd yn dda. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael yn dda yn y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol mewn gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu yn y ddwy iaith, rhifedd a medrau digidol i gefnogi eu dysgu a galluogi dilyniant da ar draws y cwricwlwm. Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ar gyfer grŵpiau penodol o ddisgyblion yn dda, trwy ddeall eu cyd-destunau a'u hanghenion yn gywir.
cynnwys ystod o ddulliau asesu sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr	Mae'r ysgol yn diwallu anghenion rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf o athrawon yn dadansoddi dysgu blaenorol yn dda ac yn gynyddol, ac yn ei ddefnyddio i osod her effeithiol sy'n adlewyrchu anghenion rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae gwahaniaethu yn effeithiol ac yn cynnwys sgaffaldiau o ansawdd da ac heriau sy'n ymestyn y dysgu'n effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ac yn gydlynol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion i sicrhau dilyniant cadarn wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r canllawiau hyn yn pennu bod ein cwricwlwm hefyd yn:

- darparu dysgu eang, gan dynnu ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau ynghyd ar draws ystod o gyd-destunau, testunau a gweithgareddau, gan greu cysylltiadau ar draws Meysydd
- darparu ar gyfer dysgu cynyddol ddwfn a soffistigedig dros amser.
- yn ddatblygiadol briodol ac yn ysgogi cynnydd dysgwyr
- yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer dysgu ac ystyried elfennau trawsgwricwlaidd, sy'n:

    - galluogi dysgwyr i ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
    - meithrin dealltwriaeth o addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith
    - meithrin dealltwriaeth o addysg hawliau dynol ac amrywiaeth

Atodiad 1. Ciplun o drosolwg Cwricwlwm Y Dderwen



Ysgol y Dderwen: Planning Stages of our Curriculum - May 2022

As a school, we have been planning a new curriculum in the ongoing process of raising standards. We do not declare that we have perfected or completed all aspects. However, there are some legal requirements that need to be met in the delivery of our curriculum.

The Curriculum Vision of Ysgol y Dderwen

Ysgol y Dderwen's curriculum is designed to be fully inclusive and stimulating so that all pupils receive relevant and comprehensive access to all areas of learning and experience. The compulsory cross-curricular skills – literacy, numeracy and digital competence – will naturally be woven into the whole learning process.

We aim, through our curriculum, to extend the aspiration and horizons of our pupils and equip them to become:

- ambitious and enthusiastic learners who will be willing to learn throughout their lives
- enterprising and creative contributors who will be willing to play a full part in life and work
- informed and principled citizens in Wales and the world
  healthy and fulfilled individuals who will be willing to contribute constructively for the benefit of their community, their country and the surrounding world.

Through our new curriculum, we aim to inspire all our pupils so that they can reach their full potential, eventually developing into active and confident citizens. We provide them with a wide range of stimulating learning experiences in a happy and supportive atmosphere. We emphasise the sense of pride in themselves and respect for others. The Welsh ethos of the school will underpin all that we do while unrivalled pastoral support will also support all our activity.

By taking advantage of the breadth of Ysgol y Dderwen's curriculum and the wealth of experiences offered to them, pupils have regular opportunities to develop a range of skills and values that will offer them solid foundations in their secondary education and ultimately in the workplace.

Our inclusive curriculum

Our curriculum will raise the aspirations for all learners. As a school we have considered how all learners will be supported to realise the four purposes and to progress. We have considered our ALN provision and how we will meet the needs of different groups of learners.

The four purposes
The four purposes are the starting point and aspiration for our school curriculum design. Our school aims to support our learners to become:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, informed citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society

The statements of what matters
Our curriculum will provide opportunities and experiences to develop the key concepts, knowledge and skills as described in the statements of what matters and in line with the Statements of What Matters Code.

Areas of Learning and Experience
Our curriculum will provide learning experiences through the 6 AoLEs of:

- Languages, Literacy and Communication
- Expressive Arts
- Science and Technology
- Humanities
- Maths and Numeracy
- Health and Wellbeing

Learning, Progression and Assessment
Our curriculum will support learning through designing learning opportunities that draw upon the pedagogical principles.
Our curriculum, supported by effective teaching and learning enables learners to make meaningful progress. Over time our learners will
develop and improve their skills and knowledge. Our curriculum focuses on understanding what it means to make progress in a given Area or discipline and how learners should deepen and broaden their knowledge and understanding, skills and capacities, and attributes and dispositions and is informed by the Progression Code. This in turn supports our approach to assessment, the purpose of which is to inform planning for future learning. Assessment will be embedded as an intrinsic part of learning and teaching. All learners will be assessed on entry to the school.

Welsh Language

- Ysgol y Dderwen provides Welsh-medium education and delivers the curriculum through the medium of Welsh. English lessons are introduced in Year 3.

Cross curricular skills

Our curriculum will develop the mandatory cross-curricular skills of literacy, numeracy and digital competence. Our curriculum will enable learners to develop competence and capability in these skills and to extend and apply them across all Areas. Learners will be given opportunities across the curriculum to:

- develop listening, reading, speaking and writing skills
- be able to use numbers and solve problems in real-life situations
- be confident users of a range of technologies to help them function and communicate effectively and make sense of the world

UNCRC : The Rights of the Child

Our school will promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the UNCRPD, among those who provide teaching and learning.

CWRE : Careers and Work-related Experiences

Our curriculum will incorporate careers and work related experiences for all of our learners.

Relationship and Sexuality Education RSE

Our school curriculum embraces the guidance in the RSE Code. Our RSE provision will have a positive and empowering role in our learners' education and will play a vital role in supporting them to realise the four purposes as part of a *whole-school approach*. Helping learners form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy.

Religion Values and Ethics RVE

Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16.
There is **no parental right** to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales
As RVE is a locally determined subject, the agreed syllabus specifies what should be taught in RVE within the local authority and our curriculum will reflect this guidance.

Review and refinement

Our school curriculum will be kept under review in order to respond to the outputs of professional inquiry, the changing needs of learners and social contexts and needs. The reviews will take into account the views of stakeholders and will be signed off by the Governing Body. We will publish a summary of our curriculum and revise the summary if changes to the curriculum are made during the review process.

Headteacher: Dylan Evans 13.07.2022

Chair of Governing Body: A. Charles 13.07.2022

Review Date: July 2023

This is a summary of the **school's actions** in **drawing up a Curriculum of Opportunities for Ysgol y Dderwen.**

What is required?	**Action underway**
Provide information on how practitioners, learners, parents, carers and the wider community have been involved	• INSET days and staff meetings • Governing Body Committees • Local School Cluster Meetings • LEA training and meetings • Curriculum Questionnaires – Pupils / parents/ staff / Governors

in curriculum development	
How does the curriculum meet the required elements of the Curriculum for Wales, starting with the four purposes?	• Ysgol y Dderwen's curriculum is being implemented in a way that enables all learners to develop in the ways described in the four purposes. • It ensures stimulating and imaginative learning and teaching opportunities that provide valuable opportunities for all learners to make good progress. • It is suitable for the age, ability and aptitude of all learners. • Our curriculum takes account of the additional learning needs of all learners. • It ensures broad and balanced learning and teaching methods for all learners • It covers, for all learners, the Fields, the heritage elements of the curriculum of English and Welsh, the cross-curricular skills of literacy, numeracy and digital competence, Relationships and Sexuality Education (which must be suitable for the learner's stage of development), and Religion, Values and Ethics.
Information on how the school deals with learners' progress and its arrangements for assessing	• Ysgol y Dderwen Curriculum naturally interweaves our assessment procedures with everyday classroom practice and is appropriate for all learners. • Requirements regarding assessment can be found in the Education (Arrangements for Assessment in the Curriculum for Wales) Regulations 2022 • The school makes arrangements for admissions assessments and the conduct of those assessments for all pupils and children at certain times specified in those Regulations • The school makes arrangements for and conducts an ongoing assessment of all pupils and children throughout the school year by a practitioner • The school also works within the school and with other schools to develop a common understanding of progress and plan for learner transition between schools • When holding parents' evening meetings and providing end-of-year reports, the school provides information to parents and carers in order for them to understand the progress their child is making.
How the curriculum will be kept under review, including the process for gathering feedback and continuously reforming the curriculum	• Internal meetings and INSET days • Governing body meetings – the school and governing body continue to review and revise our curriculum to ensure that it continues to meet the legal requirements. • LEA support to gather feedback and continuously revise the curriculum.

The impact of the Curriculum on learners' mental health and emotional well-being.	• The school has good arrangements to support pupils with emotional, health and social needs, so that they can engage positively with the school and benefit well from the opportunities it offers. • The school provides thoughtful support for pupils' mental and physical health and wellbeing, through good awareness and planned approaches, for example during the recent pandemic. • The school has planned learning activities that focus on supporting pupils' awareness of mental health, together with effective responsive procedures when issues arise.
How does the school promote knowledge and understanding of the United Nations Convention on the Rights of the Child and the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities?	• Through service support, wellbeing lessons and periods of mindfulness, staff and members of the wider community promote knowledge and understanding of the United Nations Convention on the Rights of the Child and the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities.
Working with other organisations.	• The school works with other schools, settings, local authorities and other organisations, to fulfil their duties under the act.
Planning stages of our Curriculum	
What is required?	**Action underway**
Enable learners to make **progress** towards achieving the four purposes	Most pupils have high quality experiences and learning challenges across the school. This improves motivation very well and supports good progress for most pupils.
to be broad and balanced	Teaching, through authentic contexts, has a strong impact on the outcomes of most pupils. In planning stimulating, broad and balanced opportunities ma regular learner's voice / influence is influential in shaping provision and achieving good quality outcomes.

be suitable for learners of different ages, abilities and talents	The school provides good quality learning experiences that inspire most pupils and raise their aspirations for future careers and the world of work. The school has formal and informal systems that help most pupils to make informed choices.
provide for the appropriate progress of learners	The school prepares most pupils, including those with special educational needs, to be active learners. Staff differ positively to include the most vulnerable pupils. Through this, most learners are often involved in influencing and/or making decisions about the life and work of the school. A good range of pupil voice groups are central to the school and learner participation in wider community decision making is embedded. Most classes provide beneficial opportunities for pupils to influence what they learn, and how they learn.
include all six Areas	The curriculum provides most pupils, across all areas of learning, with a comprehensive and beneficial breadth and depth of learning experiences to develop their wider interests and skills.
cover all statements of what matters	In planning learning experiences the school covers all statements of what is important if they are to dovetail with the areas of learning to enable our learners to develop towards the four purposes of the curriculum.
include the mandated elements of the curriculum, namely religion, values and ethics, relationship and sexuality education, English and Welsh	The school provides valuable, regular and relevant learning experiences outside the classroom. This learning links directly to the planned curriculum and makes very beneficial use of visits to develop pupils' interest and understanding of a particular area of learning. The school successfully enriches the curriculum, through a wide range of additional clubs and activities that reflect the four purposes well.
incorporate the mandated cross-curricular skills	The curriculum ensures that most pupils incorporate the cross-curricular skills well. As a result, most pupils acquire well in the necessary knowledge and skills in listening and reading, speaking and writing in both languages, numeracy and digital skills to support their learning and enable good progression across the curriculum. The school curriculum caters fora specific group of pupils well, by understanding their contexts and needs correctly.
include a range of assessment methods that	The school successfully meets the needs of most pupils. Most teachers analyse previous learning well and progressively, and use it to set an effective challenge that

support learners' progress	reflects the needs of most pupils. Differentiation is effective and includes good quality scaffolding and challenges that extend learning effectively. The curriculum builds systematically and coherently on pupils' existing knowledge, understanding and skills to ensure sound progression as they move through school.

This guidance specifies that our curriculum also:

- provides broad learning, drawing together a range of experiences, knowledge and skills across a range of contexts, texts and activities, creating links across Areas
- provides for increasingly deep and sophisticated learning over time.
- is developmentally appropriate and stimulates learners' progress
- includes opportunities for learning and consideration of cross-curricular elements, which:

    - enable learners to consider local, national and international contexts
    - gain an understanding of careers education and experiences related to the world of work
    - develop an understanding of human rights education and diversity

Appendix 1. Overview of our Curriculum of Opportunities

Curriculum of Opportunities: Ysgol y Dderwen